# Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4445A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam mae cynaliadwyedd ariannol yn bwysig 4

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych a 4

Ein dulliau archwilio a phan wnaethom gynnal yr archwiliad 6

Yr hyn a ganfuom 6

Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor 8

Atodiadau

Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio 9

# Adroddiad cryno

## Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

2 Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gall hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol i gefnogi eu cynaliadwyedd ariannol.

4 Egluro sefyllfa ariannol cynghorau a'r pwysau a'r risgiau allweddol i'w cynaliadwyedd ariannol.

## Pam mae cynaliadwyedd ariannol yn bwysig

5 Mae cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cost gynyddol darparu gwasanaethau a galw cynyddol am rai gwasanaethau yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllid llywodraeth leol.

6 Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'n dal yn ofynnol i gynghorau osod cyllideb gytbwys wrth ddarparu nifer o wasanaethau statudol. Mae cynghorau hefyd yn darparu ystod o wasanaethau anstatudol y mae cymunedau'n dibynnu arnynt.

7 Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod cynghorau'n datblygu dull strategol o'u cynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy i'w helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau.

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych [1]

8 Gwnaethom adolygu dull strategol y Cyngor o gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol bresennol, a'i drefniadau ar gyfer adrodd a goruchwylio ei gynaliadwyedd ariannol. Cyfyngwyd yr archwiliad hwn i ystyriaeth

[1] Wedi'i ddiffinio fel 'beth ddylai fod' yn unol â deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn unol ag arfer gorau, neu 'beth allai fod', o ystyried amodau gwell.

o'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol. Nid adolygiad o reolaeth ariannol ehangach y Cyngor oedd hwn, na'r penderfyniadau ariannol unigol y mae'r Cyngor wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud.

9 Rydym yn cydnabod y bydd rhai ffactorau a fydd yn effeithio ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad hwn, gan fod yr archwiliad hwn yn canolbwyntio ar y trefniadau y mae cynghorau'n eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, lle gwnaethom nodi materion cyffredin drwy ein gwaith maes sy'n mynd y tu hwnt i'r trefniadau y mae cynghorau wedi'u rhoi ar waith, byddwn yn adrodd ar y rhain yn ein hadroddiad cryno cenedlaethol arfaethedig.

10 Rydym hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol digynsail y mae cynghorau wedi'u hwynebu ers blynyddoedd lawer ac rydym yn debygol o barhau i'w hwynebu am o leiaf y tymor canolig. Mae hyn yn cynnwys pwysau ariannu'r sector cyhoeddus a ddilynodd yr argyfwng ariannol yn 2008 ac effaith y pandemig ar y pryd a'i ôl-effeithiau parhaus. Yn fwy diweddar mae cynghorau hefyd wedi wynebu gostyngiadau sylweddol mewn termau real mewn pŵer gwario o ganlyniad i'r cynnydd cyflymaf mewn chwyddiant ers degawdau. Ochr yn ochr â'r holl ddigwyddiadau hyn, bu cynnydd sylweddol yn y galw am rai gwasanaethau hefyd, gan gynnwys, er enghraifft, effaith poblogaeth sy'n heneiddio a'r galw cynyddol am rai gwasanaethau. Mae'r ffactorau hyn yn bennaf y tu hwnt i reolaeth unrhyw gyngor unigol.

11 Yn erbyn y cefndir tymor hir hwn o heriau ariannol, mae angen i gynghorau ymateb i heriau mwy diweddar yn gyflym ac rydym yn deall bod rhai o'r manylion penodol o ran sut y bydd pwysau ariannol yn cael eu taclo dros y tymor canolig yn dal i gael eu penderfynu. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ar drefniadau ariannol y cyngor, a lle bo'n briodol lle credwn y gellid cryfhau'r rhain i helpu i wella cynaliadwyedd ariannol y cyngor dros y tymor canolig. Dylid edrych ar ein hadroddiad yng nghyd-destun y pwysau ariannol ehangach a hirdymor hyn.

12 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol - **Oes gan y Cyngor drefniadau priodol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol?** Er mwyn gwneud hyn, rydym yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor strategaeth glir ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor?
- A yw strategaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chefnogi gan ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol?
- A yw trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi goruchwylio ei gynaliadwyedd ariannol yn rheolaidd?

13 Mae'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i asesu trefniadau'r Cyngor yn erbyn pob un o'n cwestiynau wedi'u nodi yn **Atodiad 1**. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ein gwybodaeth gronnol, yn ogystal â thynnu ar rai cyhoeddiadau a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

# Ein dulliau archwilio a phan wnaethom gynnal yr archwiliad

14 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o gynghorwyr ac uwch swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn ym mis Ebrill 2024.

15 Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn ym mhob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol i bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu llunio adroddiad cenedlaethol.

# Yr hyn a ganfuom

16 Yn gyffredinol, canfuom fod **gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, ond ni fydd y rhain ond yn effeithiol os yw'n gweithio'n gyflym i nodi, cymeradwyo a gweithredu digon o arbedion i leihau ei fwlch cyllido tymor canolig mewn ffordd gynaliadwy**. Rydym yn nodi isod pam y daethom i'r casgliad hwn.

17 Mae strategaeth ariannol glir, gadarn a chytunedig yn bwysig i nodi sut y bydd y Cyngor yn ymateb i'r pwysau cyllido a ragwelir yn y dyfodol, ac yn enwedig sut y bydd y Cyngor yn cwrdd â'i fwlch cyllido a ragwelir yn y tymor byr, canolig a hir. Canfuom, er bod strategaeth y Cyngor ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn canolbwyntio ar ddulliau gweithredu hirdymor, mae wedi gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn ac ystyried opsiynau arbedion tymor byr llai cynaliadwy i ateb yr her ariannol uniongyrchol.

18 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (MTFS) yn mynegi'n glir yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu, gan gynnwys bwlch cyllido a ragwelir o £25 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Nid yw'r Cyngor wedi nodi eto sut y bydd yn cau'r bwlch ariannu hwn.

19 Mae dull strategol y Cyngor o gefnogi cynaliadwyedd ariannol wedi'i nodi ar lefel uchel mewn strategaethau fel y MTFS a'r Strategaeth Fasnachol. Er bod y dull gweithredu yn canolbwyntio ar ystod o opsiynau cynaliadwy, bydd llawer o'r rhain yn cymryd amser i ddatblygu a chyflawni buddion ariannol ac ar hyn o bryd ychydig o enghreifftiau sydd wedi'u datblygu'n llawn o arbedion trawsnewidiol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cyllido. Mae hyn yn cyflwyno'r risg y bydd angen i'r Cyngor ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ac opsiynau cynilo llai cynaliadwy (e.e. lleihau pob cyllideb portffolio gan ganran benodol) i gwrdd â'i heriau ariannol uniongyrchol, fel y gwnaeth wrth bennu cyllideb 2024-25.

20 Mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol wrth chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ac mae ei benderfyniad diweddar i rannu Prif Weithredwr gyda

Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen cyfagos am gyfnod cychwynnol o naw mis yn ceisio nodi cyfleoedd pellach i gryfhau gwytnwch y ddau gyngor.

21 Mae'r dull gweithredu wedi cael ei rannu'n eang gydag aelodau ac uwch swyddogion ac mae cynigion a phenderfyniadau diweddar ar y gyllideb yn dangos eu dealltwriaeth o'r her ariannol. Ond mae maint y bwlch cyllido tymor canolig yn gofyn i swyddogion ac aelodau gynnig a chytuno ar newidiadau mwy trawsnewidiol yn y dyfodol.

22 Mae lefelau isel o gronfeydd wrth gefn yn lleihau gwytnwch ariannol a gallu'r cynghorau i ddelio â phwysau yn y dyfodol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cynyddu ei lefelau o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ac wedi sefydlu cronfeydd wrth gefn penodol i gefnogi ei wytnwch ariannol. Ym mis Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor £47 miliwn o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, sy'n cyfateb i 26.3% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau. Fodd bynnag, o ystyried maint yr her ariannol sy'n ei hwynebu, dewisodd y Cyngor ddibynnu ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i osod cyllideb gytbwys yn 2023-24 a 2024-25. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei falans wrth gefn y gellir ei ddefnyddio yn cael ei leihau £10 miliwn erbyn 31 Mawrth 2025, ac mae'n cydnabod bod parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn anghynaladwy os yw am sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy.

23 Mae dealltwriaeth drylwyr o bwysau cyllido presennol ac yn y dyfodol, ochr yn ochr â risgiau eraill i gynaliadwyedd ariannol yn bwysig er mwyn sicrhau bod strategaeth ariannol y Cyngor yn wybodus ac yn briodol i raddfa'r her ariannol y mae'n ei hwynebu. Canfuom fod y Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol tymor canolig a'r ffactorau sy'n dylanwadu arno er bod rhywfaint o ansicrwydd dros y tymor hwy.

24 Mae cyfrifiadau bwlch cyllido tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol. Yn ystod y broses o bennu'r gyllideb, caiff aelodau ac uwch swyddogion y cyfle i herio'r rhagdybiaethau hyn ac mae meincnodi a thrafodaethau CLILC yng nghyfarfodydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru yn rhoi sicrwydd pellach.

25 Mae'r Cyngor yn deall ei bwysau cyllideb presennol ac yn ystyried ac yn meintioli'r rhain fel rhan o'i broses gyllidebol flynyddol. Er bod rhywfaint o dystiolaeth o fodelu data i ddeall y galw yn y dyfodol, mae effaith ariannol pwysau costau ym mlynyddoedd nesaf y MTFS yn llai datblygedig. Gallai hyn effeithio ar gywirdeb y bwlch cyllido a ragwelir.

26 Mae gan y Cyngor record amrywiol o fynd i'r afael â phwysau cyllideb allweddol. Gall ddangos camau effeithiol i fynd i'r afael â rhai pwysau ac mae wedi cryfhau ei drefniadau i fonitro gorwariant. Mae'r rhan fwyaf o'r portffolios bellach yn rheoli pwysau o fewn y cyllidebau presennol ac mae'r Cyngor wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond erys sawl maes o orwariant a fydd yn dod yn fwyfwy anodd eu hamsugno wrth i gyllidebau leihau i fynd i'r afael â'r bwlch cyllido tymor canolig.

27 Mae'r Cyngor wedi nodi sawl risg allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol, gan gynnwys galw a chostau cynyddol, a recriwtio a chadw staff. Nod ei ddull strategol yw lliniaru yn erbyn rhai o'r risgiau hyn, e.e. trwy fentrau ymyrraeth gynnar ac atal a

chydweithio Ond mae rhai risgiau, fel ansicrwydd ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru a chyfrifoldebau ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar gynghorau heb gyllid ynghlwm, y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Ar gyfer y risgiau hyn, mae camau lliniaru wedi'u cyfyngu i fonitro tybiaethau yn rheolaidd.

28 Mae trefniadau adrodd clir, rheolaidd a thryloyw yn bwysig er mwyn galluogi goruchwylio sefyllfa ariannol y Cyngor yn effeithiol, y camau y mae'n eu cymryd i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol ac effaith hyn ar ei gymunedau lleol. Canfuom fod cyfrifoldebau clir ac adroddiadau monitro cyllideb addysgiadol yn cefnogi goruchwyliaeth effeithiol o sefyllfa ariannol y Cyngor, ond nid yw'n glir sut y gallai dull strategol y Cyngor o gynaliadwyedd ariannol effeithio ar gymunedau lleol.

29 Er y gall y Cyngor ddangos ei fod yn ystyried effaith cynilion a chynigion buddsoddi unigol, nid yw'n nodi nac yn adrodd ar effaith gronnol bosibl ei strategaeth ariannol hirdymor ar gyflawni ei amcanion corfforaethol. O ganlyniad, nid yw'n glir sut y gallai dull strategol y Cyngor o gynaliadwyedd ariannol effeithio ar gymunedau lleol.

30 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n glir gyfrifoldebau dros fonitro ei sefyllfa ariannol. Mae adroddiadau monitro cyllideb chwarterol llawn gwybodaeth a sesiynau briffio i bob aelod hefyd yn rhoi cyfle priodol i oruchwylio a chraffu ar sefyllfa ariannol a chyflawni arbedion a gynlluniwyd.

## Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor**

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Canfuom nad yw'r Cyngor wedi nodi'r holl arbedion y bydd eu hangen arnynt eto i gau'r bwlch cyllido dros y tymor canolig. Dylai'r Cyngor ganolbwyntio digon o gapasiti ac adnoddau i ddatblygu a mesur opsiynau cynaliadwy a thrawsnewidiol sy'n unol â'i strategaeth a mynd i'r afael â'r bwlch cyllido y tu hwnt i 2025-26. |
| A2 | Er mwyn sicrhau bod cynghorwyr a rhanddeiliaid eraill yn gallu monitro'n dryloyw effaith ddisgwyliedig strategaeth ariannol y Cyngor ar gymunedau lleol, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ystyried ac yn adrodd ar effaith ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion corfforaethol. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Arddangosyn 2: cwestiwn cyffredinol: A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol?**

| Cwestiwn Lefel 2 | Meini prawf |
| --- | --- |
| A oes gan y Cyngor strategaeth glir ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor? | • Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir ei ddull strategol o gefnogi ei gydnerthedd ariannol dros y tymor byr, canolig a hir.<br>• Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig.<br>• Mae dull strategol y Cyngor yn cael ei ddeall a'i gefnogi'n eang gan uwch swyddogion.<br>• Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod eang o opsiynau i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor, gan gynnwys cymharu â chyrff eraill.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi'r holl arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud i gwrdd â'i fwlch cyllido dros y tymor canolig, gyda chefnogaeth cynlluniau â thystiolaeth dda yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol.<br>• Mae strategaeth y Cyngor yn cynnwys y defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn i reoli ei raglen arbedion dros y tymor canolig.<br>• Mae'r Cyngor wedi modelu effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol dros y tymor canolig (e.e. gostyngiadau posibl mewn gwasanaethau a lefelau'r dreth gyngor ar gymunedau lleol). |
| A yw strategaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chefnogi gan ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol? | • Mae'r Cyngor wedi cyfrifo ei fwlch cyllido dros y tymor byr i'r tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol.<br>• Mae'r Cyngor wedi meincnodi ei ragdybiaethau gyda chyrff cymharol priodol.<br>• Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i bwysau cyllideb allweddol yn y tymor canolig a'r tymor hir.<br>• Mae gan y Cyngor hanes o fynd i'r afael â phwysau cyllideb allweddol yn llwyddiannus.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol ac wedi rhoi mesurau lliniaru ar waith. |

| Cwestiwn Lefel 2 | Meini prawf |
| --- | --- |
| A yw trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi goruchwylio ei gynaliadwyedd ariannol yn rheolaidd? | • Mae'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor, gan gynnwys ei gynaliadwyedd dros y tymor canolig i'r tymor hir.<br>• Mae'r Cyngor yn adrodd ei sefyllfa ariannol yn rheolaidd i aelodau er mwyn galluogi goruchwylio a chraffu.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau i adrodd yn dryloyw effaith / effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion corfforaethol ac ar gymunedau lleol i aelodau a rhanddeiliaid eraill.<br>• Mae cynllun cynilo y Cyngor yn cynnwys yr hyn y cytunwyd arno, faint o gynnydd sydd wedi'i wneud wrth weithredu, a chysylltiadau â'i gyllideb a'i gynllun ariannol tymor canolig.<br>• Mae'r Cyngor yn adrodd yn rheolaidd am gynnydd o ran cyflawni arbedion arfaethedig i aelodau er mwyn galluogi goruchwylio a chraffu. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.